Bananas – Masnach Deg

Cysyniadau: **Tegwch, cyfiawnder.**

Amcan: **Dangos fel mae Masnach Deg yn cyfrannu i hybu cyfiawnder a thegwch.**

Cyfarpar: **Dwy neu dair banana, bathodyn Masnach Deg sydd i'w weld ar gynhyrchion a 100 o geiniogau (rhai ffug neu rai iawn).**

Cyflwyniad:
Mae wedi bod yn ddiwrnod prysur arall yn y blanhigfa fananas. Dyna lle mae'r gweithiwr yn eistedd wrth ymyl llwyth o fananas sy'n barod i fynd ar eu taith i bedwar ban byd. Bydd y rhain yn cael eu gwerthu mewn siopau ac archfarchnadoedd am bris uchel. Ond i ble mae'r arian yn mynd a faint o'r elw fydd yn mynd yn ôl i'r blanhigfa ac i'r gweithwyr?

Dowch i ni wrando ar stori dau, bachgen a geneth. Mae Ben yn gweithio efo'i dad yn tyfu bananas yn Ecuador yn Ne America ac mae Rosa yn gweithio efo'i thad yn tyfu ffa coffi yn Ethiopia ar gyfandir Affrica.

Ben:
Ben ydi fy enw i ac mi ydw i'n naw oed. Rydw i'n helpu Dad i dyfu bananas. Mae fy nhri brawd a'm chwaer yn helpu hefyd. Pan fydd hi'n brysur iawn bydd Mam yn rhoi help llaw hefyd. Rydyn ni fel teulu yn codi o gwmpas chwech o'r gloch y bore ac yn gweithio'n galed drwy'r dydd nes bydd yr haul yn machlud.

Ond eleni mae rhywbeth trist iawn wedi digwydd. Pan oedden ni wrthi'n cynaeafu'r bananas, ac roedd miloedd ohonyn nhw'n barod i fynd i wledydd eraill yn Ewrop, dyma'r cwmni oedd yn prynu ein bananas yn dweud eu bod wedi taro bargen efo ffermwr arall oedd yn

barod i werthu am bris gwell. Nid pris gwell i ni ond pris gwell iddyn nhw sef llai o arian i ni. Felly, mae miloedd o fananas wedi aeddfedu yn barod i fynd a does 'na neb yn barod i'w prynu. Fydd 'na 'run geiniog yn dod i mewn ac felly fydd 'na ddim digon o arian i brynu bwyd am wythnosau. Ac mae'r saith yn ein teulu yn dibynnu'n llwyr ar yr elw gawn ni am y bananas. Ond eleni fydd 'na ddim ceiniog.

Rosa:
Dydw i ddim yn cael mynd i'r ysgol fel chi. Mae'n rhaid i mi aros adref efo fy rhieni, fy chwaer a'm dau frawd. Rydyn ni'n tyfu ffa coffi ar y fferm yn Ethiopia. Mae'n waith caled iawn. Mae'n golygu casglu'r ffa coffi, yna eu rhannu a'u sychu nes eu bod yn barod i gael eu gwerthu i wledydd cyfoethog y byd.

Ychydig iawn o arian y mae'n teulu ni yn ei gael. Mae'r cwmni sy'n prynu'r ffa coffi gan fy rhieni yn cadw'r gweddill. Mae'r bobl sy'n prynu'r ffa yn gyrru ceir mawr drud ac yn byw mewn tai drudfawr ac yn cael digonedd o fwyd ac mae eu plant yn cael mynd i'r ysgolion. Ond does gennym ni fawr ddim.

Trafodaeth bellach:

- Nodwch y pethau sy'n debyg ym mywydau Ben a Rosa.

- Sut byddech chi'n disgrifio eu ffordd o fyw?

- Yn hanes Ben a Rosa pwy sy'n elwa?

- Pa waith fyddech chi'n ddewis? Gweithio yn y blanhigfa neu yn yr archfarchnad?

- Ydych chi'n credu bod yr arian yn cael ei rannu'n deg?

- Dowch i ni weld ydi hyn yn deg? Dyma 100 o geiniogau.

Mae'r dyn sy'n cadw'r siop yn cadw 32 o'r ceiniogau.
Mae 26 o'r ceiniogau yn mynd i dalu am gludo'r bananas o siediau aeddfedu i'r siop.

Mae 19 o'r ceiniogau yn mynd i'r rhai sy'n aeddfedu bananas ar ôl iddyn nhw gyrraedd Prydain.
Mae 13 o'r ceiniogau yn mynd i'r rhai sy'n cludo'r bananas o'r blanhigfa i'r porthladd i'w hallforio.
Dim ond 10 ceiniog sy'n mynd i'r gweithiwr sydd wedi gweithio'n galed i'w tyfu.

● Ydi hyn yn deg?

Dyfyniad o'r Beibl:

Mae gan Iesu stori am weithwyr yn y winllan. Mae'r cyflogwr yn mynd i chwilio am weithwyr ac meddai wrthyn nhw, 'Ewch chwi hefyd i'r winllan, ac fe dalaf i chwi beth bynnag fydd yn deg.'

Mathew 20:4 BCND

Emyn: Mae Iesu Grist yn aros: Canu Clod 263

Munud i feddwl:

Mae masnach deg yn golygu bod pawb ar ei ennill.

Myfyrdod/Gweddi:

Dowch i ni feddwl am y rhai sy'n gweithio'n galed am y nesa peth i ddim. Sut gallwn ni wneud byd tecach? O Dduw, rydw i eisiau bod yn deg efo pawb. Amen.